# Pecyn Gwybodaeth

# Llysgenhadon Dysgwyr

# Addysg Bellach




Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Beth yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol?

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn bodoli ers 2011 ac wedi bod yn gweithio gyda phrifysgolion Cymru i gynllunio a datblygu cyrsiau i fyfyrwyr astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid oes gan y Coleg gampws ond yn hytrach mae'n gweithio ar draws Cymru gyfan. Bellach, mae'r Coleg Cymraeg wedi dechrau cydweithio gyda cholegau Addysg Bellach fel dy goleg di. Mae'r Coleg Cymraeg am annog pob dysgwr ac aelod o staff mewn colegau addysg bellach i wella eu sgiliau Cymraeg felly ymuna â ni, trwy fod yn lysgennad i geisio annog pawb i ddefnyddio'r Cymraeg sydd gyda nhw.

Mae cyflogwyr yn gofyn fwy fwy am weithwyr sydd yn gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ac felly mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i weithio gyda dy goleg di a phob coleg arall yng Nghymru i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ti a dy gyd-ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Bydd gofyn i ti ddanfon fideo 30 eiliad at yr helen.humphreys@coleggwyrabertawe.ac.uk yn i basio ymlaen at y Coleg Cymraeg. Dylai'r fideo gynnwys ti yn cyflwyno dy hun a pham bod ti am ymgymryd â'r rôl o fod yn llysgennad.**

## Swydd Ddisgrifiad

**Pwrpas**

- Ymgymryd â'r rôl o fod yn Llysgennad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/2024.
- Bydd gofyn i ti fod yn frwdfrydig am y Gymraeg ac yn barod i gydweithio er mwyn ysbrydoli eraill yn dy Goleg.
- Bydd disgwyl i ti gynrychioli'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Coleg addysg bellach mewn amryw o ddigwyddiadau o fewn y Coleg e.e. nosweithiau agored yn annog darpar ddysgwyr am fanteision o ddatblygu eu sgiliau Cymraeg tra yn y Coleg, unrhyw ddigwyddiad rhithiol megis grwpiau trafod.
- Bydd y Coleg Cymraeg yn cynnal sesiwn groeso ar ddechrau dy gyfnod. Bydd yn gyfle i chi fel llysgenhadon i ddod i adnabod eich gilydd a chreu rhwydwaith er mwyn trin a thrafod heriau cyffredin.

**Cyflog -** £12 yr awr a thâl 'retainer' o £100 am y flwyddyn.

- Am hanner diwrnod o waith (3.5 awr) ceir tâl o £42, a diwrnod llawn (7 awr) ceir tâl o £82.

**Dyma beth fydd angen i ti gwblhau er mwyn cael y £100:**

- Llunio atebion i broffil personol i'w roi ar y Blog / Gwefan
- Darparu llun safonol o dy hun ar gyfer dibenion marchnata
- Trydar/ail drydar a/neu ddefnyddio Instagram/Facebook/TikTok/Snapchat i hyrwyddo gwaith y Coleg o leiaf 2 waith y mis (os nad wyt ti ar wefannau cymdeithasol, fe alli drafod gyda'r swyddog cangen am ffordd gwahanol o gyfrannu)
- Llunio 2 flog yn unol â'r amserlen ac 1 arall o'ch dewis chi neu/ac ar gais y Coleg
- Mynychu sesiwn groeso y llysgenhadon yn ogystal ag amryw ddigwyddiadau bydd y Coleg Cymraeg yn trefnu yn ystod y flwyddyn
- Ymateb i geisiadau mewn e-byst/galwadau ffôn / neges destun gan y swyddog cangen/hyrwyddwr dwyieithrwydd o fewn 48 awr
- Prydlondeb cyflwyno tasgau ar gais y Coleg / mynychu digwyddiadau
- Unrhyw dasgau eraill all godi dros y flwyddyn

**Sgiliau**

- Sgiliau cyfathrebu llafar da
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm
- Y gallu i ddefnyddio'ch menter eich hun
- Unigolyn cyfrifol, dibynadwy a threfnus
- Y gallu i fod yn hyblyg

Bydd cyflawni'r tasgau amrywiol uchod yn datblygu nifer o brofiadau gwerthfawr i'r llysgennad e.e. datblygu sgiliau cyfathrebu a chyflwyno yn y Gymraeg, blogio, datblygu sgiliau yn y cyfyngau cymdeithasol, ymarfer sgiliau ysgrifennu yn y Gymraeg.

## Negeseuon Allweddol

Dyma brif negeseuon sydd angen ei ledaenu ymysg dysgwyr eraill y coleg, a darpar-ddysgwyr:

- Mae gen ti fantais go iawn o fod yn medru siarad/deall dwy iaith
- bod medru'r Gymraeg yn sgil arbennig
- defnyddia'r hynny o Gymraeg sydd gyda ti
- annog eraill i ddefnyddio'u Cymraeg ar draws y campws, pa bynnag lefel eu sgiliau
- galw mawr am weithwyr dwyieithog ym mhob sector
- 82% o fusnesau yng Nghymru yn dweud fod defnyddio'r Gymraeg yn ychwanegu gwerth at eu gwasanaeth

| **Pynciau i flogio amdanynt** |
|---|

| |
|---|
| Diwrnodau agored/rhithwir dy goleg |
| Cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn y Coleg (boed mewn person neu’n ddigidol) |
| Beth wyt ti eisiau gwneud ar ôl y Coleg |
| Blog i gyd-fynd â gŵyl e.e Dydd Miwsig Cymru |
| Unrhyw ddigwyddiadau/gweithgareddau o fewn dy gwrs |
| Blas o ddarlith/tiwtorial |
| Dilyn trydar, facebook a instagram y Coleg (@colegcymraeg) am syniadau |
| Ymweliad Ysgol (os yn berthnasol) |
| Profiad Gwaith - os wyt ti’n mynd ar brofiad gwaith cofia flogio amdano - pa mor ddefnyddiol ayyb! |

## Cyswllt

helen.humphreys@coleggwyrabertawe.ac.uk

## Dyddiadau Pwysig

Bydd disgwyl i ti anfon y fideo erbyn y **09.10.23.**

## Sesiwn Groeso

Cynhelir sesiwn groeso i’r llysgenhadon mewn person, ym **Mhrifysgol Aberystwyth ar 20/10** lle fydd yn gyfle i chi ddarganfod mwy am y rôl, sgwrsio a gofyn cwestiynau i cyn-lysgenhadon a chyfle i ddod i nabod eich gilydd.

## Gwisg

Bydd hwdi a chrys-t y Coleg yn cael eu postio atat / at yr hyrwyddwr, a disgwylir i ti wisgo un o’r rhain mewn unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â'r Coleg / nid oes hwdis ychwanegol ar gael felly sicrha dy fod yn gofalu amdano.